

Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN

Trwy e-bost yn unig:  
[SeneddFinance@senedd.cymru](mailto:SeneddFinance@senedd.cymru)

1 Cwr y Ddinas/ 1 Capital Quarter  
Cardiff / Caerdydd  
CF10 4BZ  
Tel / Ffôn: 029 2032 0500  
Fax / Ffacs: 029 2032 0600  
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660  
[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

**Cyfeirnod:** IR24004/AC455/caf  
**Dyddiad cyhoeddi:** 20 Medi 2024

Annwyl Peredur

## Gwella deddfwriaeth archwilio

Diolch eto am eich llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2024 lle'r ydych yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau y dylid eu gwneud i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Gwnaed cais gennych y dylai'r newidiadau hynny gael eu cyflwyno yn nhrefn eu blaenoriaeth yn amrywio o'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn hanfodol i'r rhai sy'n ddymunol. Mae Atodiad A i'r llythyr hwn yn rhestru ac yn esbonio'r newidiadau mwyaf brys ac sydd eu hangen fwyaf i Ddeddf 2013. Mae Atodiad C yn rhestru ac yn esbonio newidiadau dymunol eraill i'r Ddeddf.

Mae Atodiad B yn mynd i'r afael â gwahanol gyfres o faterion. Mae'r rhain yn ymwneud ag agweddau ehangach a fyddai, o'u gweithredu, yn rhoi trefn archwilio cyhoeddus gryfach a mwy cydlynol i Gymru a'r Senedd ar ôl 2026.

Pan fu'n bosibl, rydym wedi darparu amcangyfrifon o arbedion ariannol posibl. Fodd bynnag, mae llawer o'r newidiadau a awgrymir yn bwysig am resymau cyfansoddiadol, fel annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol a'i waith, neu gadernid trefniadau i'r Senedd ddwyn y sector cyhoeddus ehangach i gyfrif neu i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran rheolaeth dros y defnydd o gyllid cyhoeddus.

Mae'r tablau isod yn crynhoi'r newidiadau arfaethedig.

### **Newidiadau hanfodol i Ddeddf 2013**

#### *Newid*

Dileu gofynion ar y Senedd i ymgynghori â'r Prif Weinidog ar faterion penodi.

Rhesymoli darpariaethau ffioedd.

Egluro darpariaethau anghymhwysu.

#### *Manteision*

Yn gwella annibyniaeth Archwilio Cymru sy'n hwyluso craffu da ac yn gwella gwerth am arian.

Arbedion gweinyddol parhaus o hyd at £50,000 y flwyddyn a llai o risg o her gyfreithiol ddur.

Llai o risg o waith gweinyddol a chyfreithiol drud, a llai o ddatgymhelliad i ddarpar ymgeiswyr am swyddi.

### **Newidiadau dymunol i ddeddfwriaeth arall**

#### *Newid*

Gwneud ymchwiliadau datblygu cynaliadwy yn gymesur.

Symleiddio trefniadau archwilio cynghorau cymuned.

Dyletswydd "trefniadau priodol" wrth archwilio llywodraeth ganolog.

Diweddarau pwerau paru data

Darpariaeth benodol ar gyfer barn archwilio rheoleidd-dra ar gyfer pob corff llywodraeth ganolog.

Diwygio cymhwysedd yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyfrifon corfforaethau Addysg Bellach.

Rhesymoli terfynau amser ardystio.

Hawliau mynediad penodol ar gyfer ymchwiliadau datblygu cynaliadwy.

#### *Manteision*

Byddai galluogi dull seiliedig ar risg yn fwy cost-effeithiol a darbodus: arbedion posibl o £100,000 y flwyddyn.

Arbedion posibl o £55,000 y flwyddyn a gwneud y drefn archwilio yn llai beichus.

Yn dod â chraffu archwilio llywodraeth ganolog i'r safon a fodlonir ar gyfer llywodraeth leol.

Yn lleihau'r risg o golli arbedion ariannol a achosir gan Gymru yn methu â chymryd rhan yn llawn yn ymarferion paru data y DU gyfan.

Yn osgoi dryswch ac yn atgyfnerthu pwysigrwydd cymeradwyaeth y Senedd o'r defnydd o gyllid.

Opsiwn o gostau archwilio is tra byddai elfennau sector cyhoeddus y sector addysg bellach yn cael eu gwella.

Yn hwyluso craffu da a stiwardiaeth dda o arian cyhoeddus.

Yn lleihau'r risg o gostau ac oedi o heriau i fynediad yr Archwilydd Cyffredinol.

## Newidiadau dymunol i Ddeddf 2013

### *Newid*

Hwyluso cydymffurfiaid â rheol cworwm statudol Swyddfa Archwilio Cymru trwy leihau nifer yr aelodau bwrdd sy'n staff.

Dileu'r gofyniad am adroddiadau interim ar arfer swyddogaethau

Dileu cap ar ffioedd ar gyfer gwaith cytundeb.

Symleiddio/egluro prosesau penodiadau cysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhesymoli darpariaethau treuliau'r Archwilydd Cyffredinol.

Symleiddio gofynion adrodd blynyddol ailadroddol.

### *Manteision*

Yn osgoi oedi ac amharu ar fusnes Swyddfa Archwilio Cymru, yn lleihau'r risg o her gyfreithiol ddrud ac yn galluogi arbediad amser a lwfans staff parhaus o tua £12,000.

Yn arbed amser ac ymdrech yn llunio adroddiadau sy'n ddiangen fel arall: yn arbed hyd at £20,000 y flwyddyn.

Yn dileu cyfle a fethwyd i glirio costau archwilio cyrff cyhoeddus Cymru.

Yn atal dryswch a chostau cyfreithiol a gweinyddol ychwanegol: arbedion cyfatebol blynyddol o tua £5,000.

Yn osgoi dryswch ac yn helpu i ddiogelu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol, sy'n helpu i sicrhau trethdalwyr bod trefniadau archwilio priodol ar waith yn sector cyhoeddus Cymru.

Yn dileu ffynhonnell o ddryswch; gwella hygyrdd deddfwriaeth.

Byddem wrth gwrs yn hapus i drafod ymhellach.

Yn gywir



**DR IAN REES**

**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**



**ADRIAN CROMPTON**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Newidiadau hanfodol i Ddeddf 2013

**Dileu gofynion ar y Senedd i ymgynghori â'r Prif Weinidog ar faterion penodi—** mae'r gofynion hyn, sy'n cwmpasu taliadau cydnabyddiaeth Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, a phenodiad a therfyniad y Cadeirydd, yn tanseilio annibyniaeth y swyddi hynny yn ogystal ag annibyniaeth y Senedd ei hun. Mae deddfwriaeth archwilio yr Alban yn rhydd o ddarpariaethau ataliol cyfatebol o ran Archwilydd Cyffredinol yr Alban ac Audit Scotland.

Dylai diddymu'r gofynion hyn (gweler paragraffau 5(2), 7(2) a 12(2) Atodlen 1 i'r Ddeddf, yn ogystal ag adran 7(2)) fod yn fater syml a byddai'n helpu i ddiogelu annibyniaeth Archwilio Cymru ac felly'n cynorthwyo i sicrhau trethdalwyr a rhanddeiliaid eraill bod trefniadau archwilio priodol ar waith yn sector cyhoeddus Cymru. Wrth gwrs, mae trefniadau o'r fath yn hwyluso, ymhlith pethau eraill, sicrhau gwerth am arian.

**Rhesymoli darpariaethau ffioedd—**Mae'r rheolau yn Neddf 2013 ar gyfer ffioedd a godir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn rhy gyfarwyddol ac yn amhosibl eu bodloni yn llawn yn ymarferol (gweler adran 23(5) y Ddeddf).

Mae'r rheolau yn ei gwneud yn ofynnol nad yw ffioedd yn fwy na'r gost lawn o arfer "swyddogaeth" mewn corff penodol. Felly, pan fo Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd, mae'n pennu cyfraddau ffioedd fesul awr ar lefel sydd yn adfer costau a ysgwyddwyd yn unig. Yna, mae'n pennu ffioedd yn seiliedig ar amser staff amcangyfrifedig ar gyfer pob swydd archwilydd sy'n ofynnol i gwblhau'r gwaith. Gwneir hyn bob blwyddyn ar gyfer pob corff a archwilir. Er bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio gwneud amcangyfrifon realistig, mae'n anochel bod amrywiannau rhwng amcangyfrifon a chostau gwirioneddol, sy'n gofyn am ymdrech a chost weinyddol ychwanegol.

Heblaw'r amser y mae'n rhaid ei dreulio yn cofnodi amser yn fanwl, gan fod ffioedd i gyrff yn ddarostyngedig i'r rheol "dim mwy na chost lawn" o ran swyddogaethau unigol, a chyflawnir sawl swyddogaeth ym mhob corff (gweler Blwch 1 isod), nid yw'n anghyffredin i ad-daliad fod yn ddyledus i gorff o ran un neu fwy o swyddogaethau, ac eto i gyfanswm cost y gwaith yn y corff fod yn fwy na'r ffi yn ei chrynswth. Mae union gyfanswm alldro costau yn aml yn cymryd misoedd lawer i ddod i'r amlwg, gan y gallai'r gwaith o ran blwyddyn benodol cyfrif ymestyn ymhell i mewn i bedwerydd chwarter y flwyddyn ganlynol neu hyd yn oed y tu hwnt i hynny.

#### Blwch 1: Y broblem o gysylltu ffioedd â swyddogaethau

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni sawl swyddogaeth (pwerau neu ddyletswyddau) ym mhob corff a archwilir. I gymryd enghraifft syml, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon corff GIG, fel bwrdd iechyd lleol, o dan adran 61(a) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, sy'n un swyddogaeth ynddi ei hun. Hefyd, o dan a61(3)(a) Deddf 2004, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, wrth archwilio'r cyfrifon, fodloni ei hun bod y gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi cael ei wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu, h.y. darparu "barn rheoleidd-dra", sy'n swyddogaeth arall. Hefyd, o dan a61(3)(b) Deddf 2004, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol, wrth archwilio'r cyfrifon, fodloni ei hun bod y corff y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y defnydd o'i adnoddau. Y "casgliad gwerth am arian" yw hwn ac mae'n swyddogaeth arall. Os bydd y bwrdd iechyd lleol angen i hawliad grant gael ei ardystio, mae'r ddyletswydd i ardystio yn swyddogaeth arall eto (a gyflawnir o dan baragraff 20 Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Mae'r rheol "dim mwy na chost lawn" a gyflwynir yn adran 23 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn golygu gan na ellir defnyddio tanwariant wrth gyflawni un swyddogaeth i ariannu gorwariant wrth gyflawni un arall, ni all fod unrhyw groes-gymhorthdal rhwng swyddogaethau.

Mae'r sefyllfa gyda chyrff llywodraeth leol yn fwy cymhleth nag yn y GIG, gan fod llawer mwy o swyddogaethau yn cael eu harfer ym mhob corff.

I raddau cyfyngedig braidd, gellir rheoli'r amrywiadau hyn dros amser trwy "wrthbwysu" (netio ad-daliadau o ran un swyddogaeth yn erbyn ffioedd ychwanegol sy'n ddyledus pan fo'r gost yn fwy na'r amcangyfrif o ran swyddogaeth arall, neu'r un swyddogaeth yn y flwyddyn nesaf). Fodd bynnag, nid yw Deddf 2013 yn darparu ar gyfer gwrthbwysu, a cheir risg y gellid dyfarnu bod y ffi yn anghyfreithlon cyn gynted â'i bod yn amlwg y codwyd mwy na chost lawn y swyddogaeth berthnasol ar gorff. Mae hyn yn cyferbynnu, er enghraifft, â'r gwrthbwysu a ganiateir yn achos Audit Scotland lle mae angen cyfanswm y swm a dderbynnir o gymryd un flwyddyn gydag un arall gyfateb yn fras yn unig i'r gwariant o ran yr arfer o swyddogaethau.

Mae'r weinyddiaeth ychwanegol sydd ei hangen i ddangos ymdrechion gorau i fodloni'r gofynion yn arwain at gost ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru—rhwng

£30,000 a £50,000 y flwyddyn<sup>1</sup>, a ysgwyddir wedyn gan gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'r trethdalwr yn y pen draw. Mae amhosibilrwydd cydymffurfiaid llawn a diamwys hefyd yn rhoi Swyddfa Archwilio Cymru mewn perygl o her gyfreithiol ddrud ac efallai'n codi cwestiynau am hygyrdd y fframwaith cyfreithiol y mae'r Senedd wedi ei roi ar waith.

Problem arall yw bod y rheol "dim mwy na chost lawn" yn gweithredu fel anghymhelliad i ddarbodaeth ac effeithlonrwydd ar lefel timau ac unigolion. Er enghraifft, gallai tîm archwilio nodi ffordd o gyflawni archwiliad mewn llai o oriau staff, efallai trwy leihau cyfanswm y profi uniongyrchol trwy roi mwy o ddibyniaeth ar eu cryfder a aseswyd o reolaethau mewnol y corff. Fodd bynnag, mae'r lleihad dilynol i waith yn dueddol o greu problemau yn hytrach na manteision oherwydd, o dan y rheol "dim mwy na chost lawn", mae'n rhaid ad-dalu cost is yr archwiliad i'r corff perthnasol a archwiliwyd, ond nod yw'r opsiwn o atal archwilwyr dros dro i adlewyrchu'r gostyngiad i waith yn ymarferol, ac nid yn y byrdymor yn arbennig. Er ei bod weithiau'n bosibl neilltuo amser archwilwyr a arbedwyd i waith archwilio arall sy'n ennill ffioedd, nid yw hyn yn wir ar y cyfan, gan fod nifer yr archwiliadau sy'n ennill ffioedd yn sefydlog i bob pwrpas. (Ac nid yw defnyddio staff asiantaeth yn gost-effeithiol yn gyffredinol, gan fod cyfraddau ffioedd fesul awr yn uchel ac mae diffyg parhad yn lleihau effeithlonrwydd proffesiynol.) Hyd yn oed pe bai atal archwilwyr dros dro yn ymarferol, ni fyddai hyn yn rhoi cymhelliad ar gyfer effeithlonrwydd.

Gellid mynd i'r afael â'r problemau hyn trwy ddiwygio'r rheolau yn y Ddeddf fel bod y cyfyngiad i gost lawn o ran y corff a archwilir yn hytrach na phob un o'r swyddogaethau penodol a gyflawnir yn y corff a archwilir, a trwy ddarparu goddefiant o ran cymryd un flwyddyn gydag un arall, yn hytrach nag o ran pob blwyddyn unigol. Byddai newidiadau o'r fath yn sicrhau bod darpariaethau Deddf 2013 yn cyd-fynd â'r rhai cyfatebol ar lefel yr Alban a'r DU ac yn **arbed hyd at £50,000 y flwyddyn**.

**Egluro darpariaethau anghymhwys**—mae Deddf 2013 yn cynnwys gwahanol ddarpariaethau sy'n anghymhwysu'r Archwilydd Cyffredinol, aelodau a staff Swyddfa Archwilio Cymru o swyddi. Nid yw rhai o'r darpariaethau hyn yn eglur, yn enwedig o ran cyfeiriadau at "y Goron" (gweler paragraff 26(3) Atodlen 1 i'r Ddeddf). Hefyd, nid ydynt yn cyd-fynd â gofynion proffesiynol perthnasol (Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC)) ar gyfer osgoi achosion o wrthdaro buddiannau. Mae'r diffyg eglurder wedi achosi problemau ymarferol, gan gynnwys y golled ddiweddar o

---

<sup>1</sup> Rhoddodd amcangyfrif mewn llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid o 21 Mehefin 2018 ystod o £27,700 i £47,700 ar gyfer cost y rheoli dim mwy na chost lawn

Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a chost gwaith gweinyddol a chyfreithiol ychwanegol i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Gallai hefyd fod yn anghymhelliad i ymgeiswyr am swyddi o fewn Archwilio Cymru a'r tu allan ac mae'n codi cwestiynau am y rhesymeg sy'n sail i ddeddfwriaeth y Senedd.

Gellid lleihau'r problemau hyn trwy ddiwygio'r ddarpariaeth anghymhwysu yn y Ddeddf fel eu bod yn cyd-fynd yn well â safonau proffesiynol. Byddai hyd yn oed diwygiad i egluro ystyr "y Goron" yn y manau perthnasol yn unig o gymorth.

## Newidiadau dymunol i ddeddfwriaeth arall

**Gwneud gofynion ymchwiliadau datblygu cynaliadwy yn fwy cymesur**—fel y nodir yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol o 3 Tachwedd 2023 i Gadeirydd Pwyllgor Bil Diwygio'r Senedd, rydym o'r farn bod Deddf 2015 wedi ymwreiddio'n llwyddiannus y cysyniad a'r arfer o ymchwiliad allanol rheolaidd o gydymffurfiaid â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a cheisio cyflawni amcanion llesiant. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn briodol mireinio'r model bellach fel y gall ymchwilio ac adrodd o'r fath fod yn seiliedig ar risg ac yn fwy cymesur. Mae hyn yn arbennig o wir nawr:

- (a) y bydd newid i gylch etholiadol pedair blynedd ar gyfer y Senedd yn arwain at gynnydd o 25% i amlder ymchwiliadau ac adroddiadau datblygu cynaliadwy, ac mae'n debygol o arwain at gynnydd tebyg i gostau-rydym yn amcangyfrif cynnydd o gyfanswm o tua £435,000 ym mhob cylch yn seiliedig ar 48 o gyrff; a
- (b) y dynodwyd, ar 30 Mehefin 2024, wyth o gyrff ychwanegol fel eu bod yn destun ymchwiliadau datblygu cynaliadwy, gan ddod â'r cyfanswm i 56 ac ychwanegu £58,000 amcangyfrifedig arall at gyfanswm cost ymchwiliadau ym mhob cylch etholiadol, y disgwylir fydd tua £1.8 miliwn.

Byddai'n briodol mireinio'r model fel bod swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol o gynnal ymchwiliadau datblygu cynaliadwy yn cael ei chyfleu o ran grym yn unig yn hytrach na'r hybrid grym-dyletswydd presennol. Byddai mireiniad o'r fath yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol ganolbwyntio ymdrechion archwilio ar feysydd o risg sylweddol, gan alluogi dull cymesur, mwy cost-efeithiol a mwy darbodus yn gyffredinol. Byddai'r asesiad risg yn cwmpasu pob agwedd ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys, er enghraifft, atal. Rydym yn amcangyfrif y gallai'r arbedion posibl yn ystod cylch etholiadol fod oddeutu sawl can mil o bunnoedd. Ceir gormod o agweddau anhysbys i roi ffigur manwl gywir, ond ni fyddai rhywbeth **oddeutu £100,000** y flwyddyn yn ymddangos yn afrealistig.

Byddai mireinio o'r fath hefyd yn helpu i adfer ac amddiffyn y lefel gyffredinol o ddisgresiwn sydd gan yr Archwilydd Cyffredinol o ran dylunio ei raglen waith, sydd, ymhlith pethau eraill, o fudd o ran sicrhau trefniadau archwilio priodol.

**Symleiddio gofynion archwilio cynghorau cymuned**-mae'r gofynion statudol ar gyfer archwilio'r 752 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru fel y'u cyflwynir yn Rhan 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fwy neu lai yr un fath â'r rhai ar gyfer cynghorau mawr fel Dinas Caerdydd i bob pwrpas. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod cynghorau mawr ar gyfartaledd yn gwario dros £400,000,000 yr un bob blwyddyn, tra bod pob cyngor cymuned ar gyfartaledd yn gwario llai nag un rhan o fil o'r swm hwnnw. Er bod Archwilio Cymru yn mabwysiadu dull mor ysgafn ag y gellir ei fabwysiadu o fewn



cyfyngiadau'r gyfraith a chan gymryd risg i arian cyhoeddus i ystyriaeth, mae'r drefn gyffredinol yn aml yn cael ei beirniadu gan y cynghorau cymuned am fod yn feichus ac yn ddrud. Mae ymdrin â niferoedd cynyddol o gwynion gan gynghorau cymuned am faint ffioedd archwilio yn troi'n weithgaredd costus sy'n cymryd amser ynddo'i hun. Tua £220,000 y flwyddyn yw cost archwilio pob cyngor cymuned, felly byddai lleihau hyn 25% yn arwain at **arbedion blynyddol o tua £55,000**.

Nid oes gennym ateb hawdd parod i'r broblem hon, ond gyda chefnogaeth y Pwyllgor a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, byddem yn barod i fuddsoddi mewn datblygu atebion. Gallai opsiynau gynnwys mabwysiadu elfennau o ddarpariaethau Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014, lle mae'n dal yn ofynnol i awdurdodau llai â throsiant sy'n is na £25,000 gwblhau a chyhoeddi datganiadau blynyddol (cyfrifon syml), ond nad yw bob amser yn ofynnol mwyach iddynt eu cyflwyno i'w harchwilio bob blwyddyn. Byddem yn awgrymu bod eithriad o'r fath yn cael ei wneud yn ddarostyngedig i'r Archwilydd Cyffredinol beidio â bod ag achos rhesymol (fel bod yn ymwybodol o bryderon credadwy ar ran etholwyr) i ystyried bod trefniadau cyfrifyddu a rheolaeth ariannol gyffredinol wedi'u peryglu'n sylweddol.

**Cyflwyno dyletswydd "trefniadau priodol" mewn llywodraeth ganolog**—mae'r diffyg gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun ynghylch trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian mewn cyrff llywodraeth ganolog (Llywodraeth Cymru a chyrff a noddir a chysylltiedig) yn cyferbynnu'n amlwg â chyrff llywodraeth leol a chyrff ieuchyd. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwaith i gefnogi craffu ar gyrff llywodraeth leol wedi'i gefnogi gan statud i fod mor drylwyr â'r hyn a wneir yn y GIG a llywodraeth leol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd y ddyletswydd hon gan gyflwr enbyd llywodraeth leol yn Lloegr, lle arweiniodd darpariaeth sector preifat at waith prin yn cael ei wneud mewn llawer o awdurdodau o ran y ddyletswydd rhwng 2010 a 2020.

Problem ymarfer bellach yw bod absenoldeb dyletswydd trefniadau priodol yn golygu bod yn rhaid gwneud mwy o waith ychwanegol mewn llywodraeth ganolog nag mewn llywodraeth leol ac yn y GIG er mwyn cyflawni'r ymchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n ofynnol o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddai absenoldeb dyletswydd trefniadau priodol ar gyfer llywodraeth ganolog yn cael ei ddatrys gan fewnosod darpariaeth o'r fath mewn deddfwriaeth berthnasol, fel adran 131(7) Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, bydda'r rhain yn ddiwygiadau bach yn hytrach na newidiadau helaeth. Ni fyddai'r gost ychwanegol o gydymffurfio â'r ddyletswydd yn helaeth gan fod llawer o'r gwaith angenrheidiol eisoes yn cael ei wneud i fodloni gofynion swyddogaethau eraill, fel ymchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

**Diweddarau pwerau paru data**—mae pwerau paru data'r Archwilydd Cyffredinol bellach ar ôl rhai swyddogion cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. Caiff yr

ymarferion eu cyflawni yn gyffredinol mewn cydweithrediad ag asiantaethau archwilio eraill y DU a Swyddfa'r Cabinet, fel y "Fenter Twyll Genedlaethol". Hyd yma, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi atal a chanfod twyll a gwallau gwerth dros £2.37 biliwn ar draws y DU, ac ataliwyd a chanfuwyd tua £49.4 miliwn yng Nghymru.

O dan adran 64A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol rym ar hyn o bryd i baru data at y diben o gynorthwyo i atal a chanfod twyll yng Nghymru yn mewn cysylltiad â hi. Mae gan swyddogion cyfatebol mewn rhannau erial o'r DU bwerau mwy helaeth. Er enghraifft, gall Archwilydd Cyffredinol yr Alban hefyd baru data at ddibenion atal a chanfod troseddau ac eithrio twyll, ac ar gyfer cynorthwyo i ddal ac erlyn troseddwyd.

Mae'r asiantaethau archwilio a Swyddfa'r Cabinet yn datblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol yn barhaus er mwyn darparu cymorth pellach i gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, ceir risg sylweddol os na fydd deddfwriaeth paru data Cymru yn cadw i fyny â'r ddeddfwriaeth yn awdurdodaethau eraill y DU, yna (a) efallai na fydd yn bosibl cyflawni ymarferion paru data y DU gyfan cyflawn yng Nghymru, a (b) ni fydd y manteision ariannol posibl o baru data i ddarganfod gwallau ac anghywirdeb a chynorthwyo'r broses o adfer dyled ar gael i Gymru.

**Mewnosod darpariaeth benodol ar gyfer barn archwilio rheoleidd-dra ymhlith gyrff llywodraeth ganolog lle mae'n absennol**—mae absenoldeb darpariaeth benodol ar gyfer barn reoleidd-dra yn golygu bod elfen sylfaenol o reolaeth y Senedd o wariant llywodraeth ganolog ar goll o statud, sydd weithiau'n achosi dryswch ymhlith gyrff a archwilir. Bydd y Pwyllgor yn gwbl ymwybodol mai un o swyddogaethau allweddol y Senedd yw cymeradwyo, ar ôl craffu, cynigion cyllideb er mwyn awdurdodi defnydd y llywodraeth o adnoddau. Er mwyn cwblhau'r cylch o reolaeth, mae'n angenrheidiol bod y Senedd yn derbyn adroddiadau ar ba un a yw'r adnoddau y mae wedi eu pleidleisio wedi cael eu defnyddio yn unol â'r bwriadau. Mae'r gyrff a effeithir gan hepgoriad darpariaethau perthnasol yn Cynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yr ateb i hepgoriad barnau rheoleidd-dra fyddai diwygiadau tebyg i'r rhai y soniwyd amdanynt uchod o ran y diffyg darpariaeth ar gyfer dyletswydd trefniadau priodol.

**Diwygio cymhwysedd yr Archwilydd Cyffredinol i archwilio cyfrifon corfforaethau Addysg Bellach** - un o'r newidiadau a ddeilliodd o Ddeddf 2013 oedd newid i gymhwysedd unigolion i gyflawni archwiliadau o gorfforaethau Addysg Bellach. Tan i Ddeddf 2013 ddod i rym, gallai'r Archwilydd Cyffredinol drefnu gyda chorfforaethau Addysg Bellach unigol i'w staff gael eu penodi i archwilio corfforaethau o'r fath. Roedd penodiadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r gofyniad cymhwysedd a oedd eisoes yn bodoli yn Neddf Diwygio Addysg 1998 i archwilwyr o'r fath fod yn archwilwyr Deddf Cwmnïau neu'n aelodau o'r Sefydliad Siartredig Cyllid

Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Trosglwyddodd Deddf 2013 staff o gyflogaeth gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond ni wnaeth y Ddeddf drosglwyddo'r gallu i'r Archwilydd Cyffredinol drefnu i staff Swyddfa Archwilio Cymru gael eu penodi. Roedd yn caniatáu i'r Archwilydd Cyffredinol gael ei benodi yn unig, a chan nad yw'r deiliad yn archwilydd Deddf Cwmnïau nac yn aelod o'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, nid yw'n gymwys. Fe wnaeth Deddf 2013 achosi pob archwiliad i gael ei drosglwyddo o archwilwyr sector cyhoeddus i archwilwyr sector preifat felly.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae corfforaethau Addysg Bellach wedi mynegi diddordeb mewn dychwelyd i archwiliad sector cyhoeddus gan yr Archwilydd Cyffredinol/staff Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig gan fod archwilwyr sector preifat bellach yn codi ffioedd archwilio cymesur uwch ac mewn rhai achosion wedi bod yn llai parod i gynnal yr archwiliadau. Yn anffodus, gyda'r ddeddfwriaeth fel y mae, nid yw'r opsiwn o ddarpariaeth sector cyhoeddus o archwiliadau corfforaethau Addysg Bellach yn bosibl.

Gellid mynd i'r afael â'r broblem hon trwy nodi yn y gofynion cymhwysedd yn a124B(6) Deddf Diwygio Addysg 1998 bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gymwys i gael ei benodi. Fel arall, gellid mynd i'r afael â hi trwy ddiwygio deddfwriaeth (gan gynnwys yn benodol adran 145B(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998) fel bod yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei wneud yn archwilydd colegau AB Cymru. (Byddai hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol diddymu a124B(6) Deddf Diwygio Addysg 1998 o ran corfforaethau Addysg Bellach Cymru.)

Prif fanteision newidiadau o'r fath fyddai y byddai gan y sector Addysg Bellach a'r trethdalwr yr opsiwn o gostau archwilio is tra byddau elfennau sector cyhoeddus archwilio'r sector, fel craffu sector cyhoeddus mwy uniongyrchol ac integreiddiad posibl yr archwiliadau ag ymchwiliadau datblygu cynaliadwy, yn cael eu gwella.

**Rhesymoli terfynau amser ardystio**-mae gwahanol ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol osod copïau o gyfrifon ac adroddiadau ardystiedig cyrff a archwilir bedwar mis ar ôl i'r corff cyflwyno eu cyfrifon ar gyfer archwiliad fan bellaf. Er bod y terfyn amser pedwar mis hwn yn rhesymol mewn llawer o achosion, gall fod yn afrealistig lle ceir problemau sylweddol mewn cyrff a archwilir, er enghraifft, o ran methiannau i ddilyn gofynion Arian Cyhoeddus Cymru. Nid yw cyfyngiad i'r fath ar waith archwilio trylwyr yn hwyluso craffu a stiwardiaeth briodol o arian cyhoeddus.

Byddai'r broblem hon yn cael ei datrys trwy ddiwygio'r darpariaethau perthnasol er mwyn caniatáu'r Archwilydd Cyffredinol i osod copïau o gyfrifon ac adroddiadau ardystiedig ar ôl y terfyn amser pedwar mis, tra'n ei gwneud yn ofynnol iddo esbonio

i'r Senedd pam na ellir bodloni'r terfyn amser a'i gwneud yn ofynnol iddo eu gosod cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Cyflwyno hawliau mynediad penodol ar gyfer ymchwiliadau datblygu cynaliadwy**—ar hyn o bryd, nid yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys hawliau mynediad penodol i'r Archwilydd Cyffredinol i wybodaeth at ddibenion ymchwiliadau datblygu cynaliadwy. Hyd yma, nid yw'r hepgoriad hwn wedi bod yn broblem sylweddol, gan ei bod yn ymddangos bod awdurdodau cyhoeddus yn derbyn bod hawliau mynediad o'r fath yn ymhlyg. Fodd bynnag, â mwy a mwy o gyrff yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas diffiniad Deddf 2015 o "gyrff cyhoeddus", sy'n eu gwneud yn destun ymchwiliadau datblygu cynaliadwy, mae'r risg o her i fynediad yn cynyddu. Byddai'n ddoeth atal y costau a'r oedi o her o'r fath trwy fewnosod hawliau mynediad penodol yn Neddf 2015 ar yr un pryd â diweddariadau eraill o'r ddeddfwriaeth honno.

## Newidiadau dymunol i Ddeddf 2013

**Hwyluso cworwm**-mae Deddf 2013 yn cyflwyno rheol statudol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a'i phwyllgorau bod cyfarfodydd ddim ond yn gwneud cworwm os yw mwyafrif yr aelodau o'r bwrdd neu'r pwyllgor sy'n bresennol yn aelodau anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru (para 28 Atodlen 1 i'r Ddeddf). Gan mai cyfansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ofynnol yn statudol yw 5 aelod anweithredol o gyfanswm aelodaeth o 9, mae'r rheol hon yn gwneud Swyddfa Archwilio Cymru yn dueddol o fod â diffyg cworwm-y cwbl y mae'n ei gymryd yw i un aelod anweithredol fod yn sâl neu ddioddef oediadau trafniadaeth. Rydym wedi rheoli'r broblem hon i ryw raddau drwy'r ateb dros dro o ofyn i aelodau sy'n gyflogeion ymesgusodi eu hunain pan nad oes mwyafrif o aelodau anweithredol wedi bod yn bresennol, ond nid yw hyn yn ddelfrydol ac ar adegau mae busnes llywodraethu arwyddocaol wedi cael ei darfu neu ei oedi. Mae methiant i sicrhau cworwm eto'n rhoi Swyddfa Archwilio Cymru mewn perygl o her gyfreithiol ddur.

I leihau'r broblem hon, rydym wedi cynnig yn flaenorol dileu'r rheol cworwm statudol, ac mae'r Pwyllgor wedi cynnig diwygio'r rheol i ganiatáu aelodau gweithredol i aros mewn cyfarfod heb hawliau pleidleisio.

O ystyried ymhellach, fodd bynnag, a chyda phrofiad pellach, rydym o'r farn efallai mai'r ateb gorau yw lleihau nifer yr aelodau nad ydynt yn anweithredol o Swyddfa Archwilio Cymru trwy ddileu'r gofyniad am aelod sy'n gyflogai a benodwyd (para 15 Atodlen 1 i'r Ddeddf). Rydym o'r farn y gellir sicrhau mewnbwn swyddogion gweithredol perthnasol digonol i'r broses o wneud penderfyniadau o bresenoldeb unigolion perthnasol nad oes yn rhaid iddynt fod yn aelod o'r bwrdd. Byddai lleihau nifer yr aelodau staff yn lleihau'r risg o fethu â sicrhau cworwm tra hefyd yn arwain at y fantais o fân arbediad cost parhaus (lwfansau ac amser gwaith y gellid codi amdano a gollwyd yr aelod sy'n gyflogai a benodwyd). Byddai'n dal i adael y Bwrdd â dau aelod sy'n gyflogeion, wedi'u hethol yn uniongyrchol gan eu cydweithwyr yn Archwilio Cymru, gan sicrhau llais staff grymus o fewn y Bwrdd.

**Dileu'r gofyniad am adroddiadau interim**-mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru baratoi adroddiadau interim ar y cyd ar arfer swyddogaethau. Ni chyflwynir unrhyw ofynion o'r fath ar unrhyw gorff cyhoeddus arall, ac rydym yn clywed bod y Pwyllgor ei hun o'r farn mai prin yw defnydd adroddiadau ychwanegol o'r fath. Mae llunio'r adroddiadau interim yn arwain at draul ddiangen ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru, sydd, er ei fod yn gymharol fach, yn cael ei ysgwyddo gan gyrff cyhoeddus a chan y trethdalwr yn y pen draw.

Gellid datrys y broblem hon yn rhwydd trwy ddiwygio Deddf 2013 er mwyn dileu'r gofyniad sefydlog am adroddiadau interim. Byddai hyn yn arwain at arbediad o hyd at **£20,000 y flwyddyn**<sup>2</sup>.

**Dileu cyfyngiad ar ffioedd ar gyfer gwaith cytundeb**—mae'r rheolau yn Neddf 2013 yn atal Swyddfa Archwilio Cymru rhag codi mwy na chost lawn gwaith a wneir trwy gytundeb gyda chyrrff cyhoeddus arall. Mae hyn yn atal Swyddfa Archwilio Cymru rhag cynhyrchu gwarged ar, er enghraifft, waith a wneir ar gyfer cyrrff yn y DU ac felly nid yw'n cynnig unrhyw gymhelliad i ni fynd ar drywydd cyfleoedd yr ydym yn ymwybodol eu bod yn bodoli. Mae hwn yn gyfle a gollwyd felly i dalu'r gost o archwilio cyrrff cyhoeddus Cymru.

Gellid datrys yr anfantais hon yn rhwydd trwy ddiwygio'r rheolau fel nad yw'r cyfyngiad i gost lawn yn berthnasol i waith cytundeb. Byddai darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ildio unrhyw warged i Gronfa Gyfunol Cymru neu ganiatáu ei ddefnyddio at ddibenion a gymeradwyir gan y Senedd yn unig yn darparu mesur diogelu yn erbyn defnydd amhriodol o wargedau sy'n cyfateb i'r hyn sy'n berthnasol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (gweler para 8 Atodlen 3 i Ddeddf Cyfrifoldeb Cyllidebol ac Archwilio Cenedlaethol 2011).

**Symleiddio prosesau penodiadau cysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru**—fel y nodir yn adroddiad Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd Trafod yr ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru), ceir problemau yn Neddf 2013 o ran:

- darpariaethau aneglur ar gyfer ailbenodi aelodau anweithredol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru;
- diffyg eglurder yn y gofyniad ar y Senedd i ymgynghori â “pherson priodol sydd â goruchwyliaeth dros benodiadau cyhoeddus” ac yn y gofyniad i gyhoeddi rhestr o swyddi cyfyngedig ac ati, y byddai angen i gyn-Archwilydd Cyffredinol ymgynghori â'r Senedd arnynt cyn eu derbyn; a
- chymhlethdodau cytundebol sylweddol sy'n codi o ran penodi archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru oherwydd bod yr awdurdod penodi (y Senedd) a'r cleient (Swyddfa Archwilio Cymru) yn wahanol gyrrff.

Mae'r problemau hyn yn achosi dryswch parhaus a chostau ychwanegol. Er enghraifft, o ran penodiad 2018 o archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru, roedd angen

---

<sup>2</sup> Rhoddodd amcangyfrif mewn llythyr i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid o 21 Mehefin 2018 amcangyfrif cost o £20,000 y flwyddyn ar gyfer adroddiadau interim.



gwasanaethau cyfreithiol y Senedd a arweiniodd at gost am gyngor cyfreithiol allanol arbenigol a brisiwyd yn £19,500<sup>3</sup>.

Gellid mynd i'r afael â'r problemau hyn trwy ddiwygiadau syml i'r darpariaethau perthnasol, fel:

- diwygiad i ganiatáu i benodiad aelod anweithredol sydd yn y swydd gael ei ymestyn am ail dymor o hyd at bedair blynedd, yn amodol ar berfformiad derbyniol; a
- diwygiad i alluogi Swyddfa Archwilio Cymru i benodi ei archwilydd allanol, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd o'r penodiad.

Rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at arbedion cyfatebol blynyddol o tua **£5,000** ac yn lleihau gwaith gweinyddol i'r Senedd yn ogystal ag Archwilio Cymru.

**Rhesymoli darpariaethau treuliau'r Archwilydd Cyffredinol**-mae dwy ddarpariaeth ar wahân o Ddeddf 2013 (adran 7 a phara 13 o Atodlen 1) yn darparu ar gyfer gwahanol drefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'n ofynnol i daliadau o ran swydd yr Archwilydd Cyffredinol gyfeirio achosion o godi tâl at Gronfa Gyfunol Cymru, tra bydd y rhai o ran ei gapasiti fel aelod o Swyddfa Archwilio Cymru a'i Phrif Weithredwr yn cael eu talu gan Swyddfa Archwilio Cymru o adnoddau a awdurdodwyd gan Gynnig Cyllideb y Senedd. Fodd bynnag, nid yw'n ymarferol gwahanu treuliau a ysgwyddwyd o ran y swyddi hyn, felly mae Swyddfa Archwilio Cymru yn talu'r holl dreuliau sy'n cael eu hawlio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hyn yn osgoi unrhyw awgrym o gamddefnyddio darpariaeth ar gyfer achosion o godi tâl uniongyrchol, a fyddai'n amlwg yn anghyfreithlon.

Rydym yn deall mai'r rhesymeg sylfaenol am dalu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol fel achosion o godi tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru yw darparu mesur diogelu ar gyfer annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r nod hwnnw yn cael ei danseilio gan anymarferoldeb darpariaethau'r Ddeddf, sy'n achosi dryswch.

Byddai rhesymoli'r darpariaethau fel bod holl dreuliau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys o ran swyddogaeth hanfodol aelod o Swyddfa Archwilio Cymru a Phrif Weithredwr, yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru yn osgoi dryswch ac yn helpu i amddiffyn annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Eto, byddai hyn yn cynorthwyo i

---

<sup>3</sup> [Llythyr gan y Gwasanaethau Cyfreithiol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid o 27 Mehefin 2018](#)

sicrhau trethdalwyr a rhanddeiliaid eraill bod trefniadau archwilio annibynnol ar waith yn sector cyhoeddus Cymru.

**Symleiddio gofynion adrodd blynyddol ailadroddol**-mae Deddf 2013 i bob pwrpas yn gwneud gofyniad ailadroddol o ran rhwymedigaethau adrodd blynyddol y sefydliad (gweler para 3 Atodlen 2 i'r Ddeddf a phara 33 Atodlen 1 i'r Ddeddf-mae'n rhaid darllen ar y cyd â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF). Yn ymarferol, rydym yn paratoi un adroddiad blynyddol bob blwyddyn sy'n bodloni'r ddau ofyniad, a osodir gerbron y Senedd ddwywaith. Er bod hwn yn fater cyfrin braidd, efallai nad yw anghenraid gosod ailadroddol yn adlewyrchu'n dda ar hygredded gwaith deddfu'r Senedd, ac mae'n ffynhonnell o ddryswch o bryd i'w gilydd sy'n defnyddio adnoddau yn ddiangen.

Gellid datrys y broblem hon yn rhwydd trwy symleiddio Deddf 2013 er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru i ddarparu'r adroddiad blynyddol i Swyddfa Archwilio Cymru ac yna ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd allanol osod yr adroddiad hwnnw yn rhan o osod y cyfrifon blynyddol.

(Mae'r broblem hon hefyd yn codi o ran rhai cyrff cyhoeddus eraill Cymru, fel Cymwysterau Cymru, a gellid mynd i'r afael â hi trwy newidiadau tebyg i'r deddfwriaeth berthnasol.)